

Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu Sector Casglwyr Gwastraff – 7 Chwefror 2024 Holi ac Ateb

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar 'Sector Casglwyr Gwastraff'. Rydym wedi grwpio'r cwestiynau hyn yn ôl thema, weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Gallwch wylio'r gweminar a gweld y sleidiau yma: [Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau \(wrapcymru.org.uk\)](https://wrapcymru.org.uk)

Cod Ymarfer: [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](https://www.gov.uk)

Mae adnoddau ar gael yma i'ch helpu i baratoi: [Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd \(wrapcymru.org.uk\)](https://www.wrapcymru.org.uk)

Cwestiwn	Ateb
Arbedion carbon	
Cwestiwn i Gareth Davies Busnes Cymru – a ydych chi'n gweld bod mwy o ddi-ddordeb gan gleientiaid mewn ailgylchu o ganlyniad i'r archwiliadau Carbon neu i'r gwrthwyneb, ai'r rheolau ailgylchu sy'n ysgogi eu diddordeb mewn CO2 yn fwy?	Oes, mae mwy o ddi-ddordeb unwaith y byddant yn gweld yr effeithiau ar allyriadau cwmpas 3, gall fod yn ysgogiad i ailystyried ailgylchu a rheoli gwastraff. Adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y DU: Allyriadau Cwmpas 3 – GOV.UK (www.gov.uk)
Sut mae'r effaith amgylcheddol am gael ei monitro, gan fod cymaint o gwmnïau'n prynu mwy o gerbydau i gasglu'r eitemau wedi'u gwahanu?	Gallwn adolygu data gwastraff ar ôl blwyddyn, dwy flynedd ac ati ac edrych ar y cynnydd mewn ailgylchu a gostyngiad mewn gwastraff i safleoedd tirlenwi a llosgi. Dangoswyd bod manteision amgylcheddol cynyddol ailgylchu o ansawdd uwch yn drech nag unrhyw allyriadau ychwanegol yn ymwneud â thrafnidiaeth. (Am fanylion technegol llawn gallwch ddarllen yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol).
Cyfathrebu	
Sut arall fydd y newidiadau'n cael eu cyfleu, gan nad oes gan lawer o'n cwsmeriaid unrhyw syniad o hyd bod y rheoliadau newydd hyn yn dod?	Anfonwyd llythyr at bob eiddo annomestig yng Nghymru ym mis Tachwedd 2023. Cafwyd hefyd hysbysebion teledu a radio a hysbysfyrdau, a defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol. Bydd mwy o hysbysebion yn dechrau'n fuan. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu a rhannu asedau cyfathrebu y gall rhanddeiliaid fel cyrff masnach /

	<p>cynrychioliadol eu defnyddio hefyd i gyfleu'r newidiadau i'w haelodau / cynulleidfa.</p> <p>Economi Gwasanaethau Cyfathrebu Llywodraeth Cymru</p>
<p>Sut gallwch chi olygu posteri ar wefan Busnes Ailgylchu Cymru, gan nad yw'n ymddangos bod yr opsiwn hwn gennyf?</p>	<p>I olygu'r templedi, bydd angen i chi gael mynediad at feddalwedd Adobe InDesign ac yna lawrlwytho'r ffeiliau yn y fformat hwn.</p> <p>Ailgylchu yn y Gweithle – Adnoddau (wrapcymru.org.uk)</p>
<p>Casgliadau trawsffiniol</p>	
<p>Os yw gwastraff yn cael ei gasglu yng Nghymru ond yn cael ei reoli mewn cyfleuster a ganiateir yn Lloegr, a yw'r gwaharddiad ar losgi a thirlenwi yn dal i fod yn berthnasol? Os felly, sut byddai gweithredwr wedyn yn nodi gwastraff a gasglwyd yng Nghymru a gwastraff a gesglir yn Lloegr, unwaith y bydd wedi cael ei brosesu drwy MRF? A yw hyn yn pennu pa wastraff fyddai'n destun y gwaharddiad?</p>	<p>Os cesglir y gwastraff yng Nghymru, yna mae dyletswydd o hyd ar y casglwr hwnnw i gasglu ar wahân ac mae CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfathrebu'r newidiadau hyn â'u cludwyr cofrestredig. Os yw cludwr o Loegr yn cyflawni trosedd drwy ei weithrediadau yng Nghymru, yna mae CNC yn dal i allu gweithredu ar hynny.</p>
<p>Rydyn ni'n ymwybodol bod rhai gweithredwyr yn dweud wrth gwsmeriaid am beidio â phoeni am y rheoliadau newydd gan eu bod nhw (y casglwr gwastraff) wedi'u lleoli yn Lloegr ac nid yw'r newidiadau'n berthnasol iddyn nhw. Rwy'n ymwybodol nad yw hynny'n wir, ond bydd yn cael ei dderbyn a'i groesawu gan rai cynhyrchwyr gwastraff gan ei fod yn osgoi costau. A oes gan CNC unrhyw bwerau neu gytundebau ag Asiantaeth yr Amgylchedd i ymweld â safleoedd y gweithredwyr hyn yn Lloegr fel rhan o'r gwaith o orfodi'r rheoliadau newydd?</p>	<p>Os caiff ei gasglu yng Nghymru mae angen ei gasglu ar wahân, ac os caiff ei gymryd wedyn dros y ffin i Loegr, mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn berthnasol yn Lloegr ar hyn o bryd:</p> <p>Mae Rheoliad 21 o Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 yn cyflwyno gwaharddiadau yng Nghymru a Lloegr ar dirlenwi a llosgi papur, metel, plastig a gwydr a gesglir ar wahân – drwy Ran 4 Atodlen 9 o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (ar gyfer gwaharddiadau llosgi) ac Atodlen 10 ar gyfer tirlenwi.</p> <p>https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/904/regulation/21/made. Byddai hynny'n cynnwys papur, metel, plastig a gwydr a gasglwyd ar wahân a gasglwyd yng Nghymru ond a gludir i Loegr.</p>
<p>Beth am wastraff sy'n cael ei gasglu y tu allan i Gymru ond sy'n dod yn ôl i Gymru i'w waredu?</p>	
<p>Sut mae'n gweithio os ydym yn casglu gwastraff o Gymru, ond ei fod yn cael ei dipio yn Lloegr?</p>	<p>Yn ogystal, mae Rheoliad 14 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (2011; fel y'i diwygiwyd) yn gwahardd cymysgu papur, metel, plastig a gwydr a gesglir ar wahân yn Lloegr. Byddai hynny'n cynnwys papur, metel, plastig a gwydr a gasglwyd ar wahân a gasglwyd yng Nghymru ond a gludwyd i Loegr.</p> <p>https://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/988/regulation/14</p>
<p>Halogiad a Gorfodi</p>	

<p>Pa gamau, os o gwbl, y gall casglwr gwastraff eu cymryd pan fydd cwsmeriaid yn parhau i anwybyddu'r gofynion newydd yn fwriadol neu'n parhau i halogi ffrydiau gwastraff?</p> <p>Rydym yn nodi mai gwrthod casglu yw'r dewis olaf, ond yn y pen draw gallai hyn arwain at faterion amgylcheddol, amwynder ac iechyd eraill, megis plâu, problemau o ran strydlun, a chroniadau o wastraff.</p>	<p>Byddai CNC yn disgwyl i gasglwyr gael gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin â halogiad a sut y byddent yn ymdrin â'u cwsmeriaid yn y sefyllfa honno. Pan fo diffyg cydymffurfio parhaus gan gwsmer, gellir rhoi gwybod i CNC am hyn drwy ein llinellau adrodd digwyddiadau arferol. Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhoi gwybod am ddigwyddiad</p>
<p>A fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i'r afael â halogiad cyson gan gynhyrchwyr gwastraff?</p>	
<p>Os bydd casglwr gwastraff yn cyrraedd Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff gydag ailgylchu cymysg sych (DMR) yn ei lwyth, beth fydd Gweithredwr yr Orsaf Drosglwyddo yn ei wneud?</p>	<p>Byddai gweithredwr yr orsaf drosglwyddo yn atgoffa'r cludwr, gobeithio, y dylai fod yn casglu'r deunydd hwnnw ar wahân ond nid oes dyletswydd o dan y rheoliadau newydd i'r gweithredwr hwnnw wrthod y llwyth hwnnw. Mae swyddogion CNC sy'n rheoleiddio'r safleoedd hyn wedi cael eu hyfforddi yn y rheoliadau newydd a byddant yn chwilio am dystiolaeth o gasglwyr nad ydynt yn cydymffurfio yn ystod eu harolygiadau a byddwn hefyd yn adolygu data dychweliadau gwastraff i dargedu ein hymdrechion.</p>
<p>Pa gyngor ddylem ei roi i gwsmeriaid pan na allwn dderbyn rhai o'u ffrydiau gwastraff?</p>	<p>Ni fydd angen i chi ddi-doli bagiau o ddeunyddiau ailgylchadwy i sicrhau nad ydynt wedi'u halogi.</p>
<p>Yn yr un modd, os ydych yn rhedeg lleoliad a bod y gwesteion yn gadael llanast gyda bagiau halogedig, ac ati, a ydym yn disgwyl i'r glanhawyr ddi-doli drwyddo?</p>	<p>Bydd angen i chi sicrhau bod y biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, bod y system ailgylchu sydd ar waith yn cael ei chyfleu i staff ac ymwelwyr a bod digon o gynwysyddion yn cael eu darparu i'ch staff a'ch gwesteion eu defnyddio'n gywir.</p> <p>Fe'ch cynghorir i fonitro effeithiolrwydd eich system ailgylchu a gwneud unrhyw newid sydd ei angen i sicrhau ei bod yn gweithio'n dda.</p> <p>Mae'r Cod Ymarfer (paragraff 7.37) yn cynnwys mwy o fanylion am y camau y cynghorir chi i'w cymryd mewn perthynas â halogiad.</p>
<p>Dirwyon</p>	
<p>Ar ba bwynt y bydd gorfodi yn croesi rhwng Cosbau Ariannol Penodedig (FMPs) a Chosbau Ariannol Amrywiol (VMPs), yn erbyn cynhyrchwyr gwastraff a chasglwyr gwastraff?</p>	<p>Byddai pob trosedd yn cael ei hadolygu fesul achos, ac rydym yn ceisio cymryd y camau gorfodi mwyaf priodol a chymesur yn yr achos hwnnw. Ond yn gyffredinol, mae VMPs ar gyfer</p>

<p>Os bydd casglwr gwastraff yn cymysgu ffrydiau yn yr un adran gerbydau ar draws 10 safle ar yr un rownd, a fyddai hynny'n cael ei ddosbarthu fel un drosedd, neu un drosedd fesul safle? A pha bryd fyddai Cosb Ariannol Amrywiol (VMP) yn dod i rym?</p>	<p>troseddau mwy difrifol, parhaus neu ailadroddus</p> <p>Methu â gwneud sylw ar senario cyffredinol gan y byddai dull CNC yn dibynnu ar amrywiaeth o wahanol ffactorau, megis a siaradwyd â'r troseddwr yn flaenorol ai peidio, niferoedd a thystiolaeth.</p>
<p>Soniwyd y gallai dirwyon gael eu rhoi i'r rhai nad ydynt yn cadw at y gofynion. Sut y bydd CNC (neu unrhyw gorff priodol arall) yn monitro'r hyn sy'n digwydd? A fydd yna dîm a fydd allan yn y maes? A fydd yn cael ei sbarduno gan ddata? Ac a fydd hyn yn dibynnu ar adborth gan drydydd partïon?</p>	<p>Mae gan CNC dîm o 12 Swyddog ledled Cymru a fydd yn monitro gweithrediad y rheoliadau newydd, yn cynnal arolygiadau ac yn cefnogi gweithleoedd i roi'r newidiadau ar waith.</p>
<p>Faint yw'r ddirwy?</p> <p>A yw £500 yn swm mawr ar gyfer Viridor/Veolia/Biffa mawr sy'n rhedeg gwaith Ynni o Wastraff (EfW) 250,000 TPA, sy'n dod â miliynau mewn ffioedd clwyd a gwerthiannau trydan bob blwyddyn?</p>	<p>Os bydd diffyg cydymffurfio, gall CNC roi cyngor ac arweiniad fel ymateb cyntaf lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ar gyfer digwyddiadau mwy difrifol neu ddiffyg cydymffurfio parhaus, mae gan CNC bwerau i fabwysiadu ymagwedd fwy cadarn pan fo angen, gan gynnwys sancsiynau sifil (cosbau ariannol sefydlog ac amrywiol) ac achosion troseddol. Bydd y cosbau ariannol penodedig naill ai'n £300 neu £500 yn dibynnu ar y toriad.</p>
<p>Gwastraff bwyd</p>	
<p>Ble ydyn ni'n sefyll gyda chleientiaid yn dweud eu bod yn rhoi eu gwastraff bwyd i randiroedd cymunedol lleol ar gyfer compost?</p>	<p>Rhaid rheoli gwastraff bwyd o dan ofynion Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 i atal pathogenau niweidiol rhag lledaenu.</p>
<p>A oes unrhyw ganllawiau ar sut mae casgliadau gwastraff bwyd yn cysylltu â gofynion sgil-gynhyrchion anifeiliaid?</p>	<p>Mae'n bosibl y byddwch yn gallu compostio neu gynnal treulio anaerobig ar gyfer eich gwastraff bwyd eich hun ar eich safle ar yr amod eich bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ac unrhyw eithriadau perthnasol, a gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ac unrhyw reoliadau perthnasol eraill.</p>
<p>Sut mae Biffa yn bwriadu casglu gwastraff bwyd o feysydd gwerau mawr, e.e. o finiau mewn compownd yn unig, neu a ydych chi'n cyflenwi cynwysyddion unigol i bob carafán i'w rhoi mewn biniau mwy, ac ati?</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr casglu gwastraff yn darparu biniau mwy i'w gosod yn y compownd gwastraff. Perchnogion y safle sy'n gyfrifol am sut mae'r gwastraff yn cael ei drosglwyddo o'r carafanau unigol.</p>
<p>Sbwriel</p>	
<p>O ran y cwestiwn am strydlun, a yw gwastraff sy'n deillio o ddyletswyddau awdurdodau lleol fel Prif Awdurdod Sbwriel wedi'i eithrio o'r rheoliadau newydd?</p>	<p>Mae hyn yn gywir</p>

<p>Beth am ardaloedd sy'n darparu biniau sbwriel o amgylch eu heiddo, fel parciau cenedlaethol, parciau gwledig, cyrsiau golff, ac ati?</p>	<p>Mae'n ofynnol i bob gweithle, yn cynnwys parciau gwledig a chyrsiau golff, gyflwyno'r deunyddiau rhestredig ar wahân i'w hailgylchu. Mater i bob gweithle yw penderfynu sut y gallant wahanu'r deunyddiau hyn yn fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, gall cael biniau ailgylchu wrth ymyl biniau sbwriel fod yn ffordd dda o wneud hyn. Ni fyddai casglu'r holl wastraff mewn bin sbwriel gweddilliol a gwneud unrhyw ymdrech i wahanu'r deunyddiau gofynnol ar gyfer ailgylchu yn cyd-fynd â'r rheoliadau newydd.</p>
<p>Deunyddiau</p>	
<p>Beth yw diffiniad 'metel, plastig a chartonau'? Waeth beth fo'r canllawiau, mae busnesau'n meddwl bod hyn yn golygu pob eitem fetel a phlastig.</p>	<p>Mae Atodiad 2 o'r Cod Ymarfer yn nodi'r diffiniad o'r hyn a gynhwysir yn y ffrwd 'metel, plastig a chartonau'. Mae Atodiad 2 o'r Cod Ymarfer yn nodi'r diffiniad o'r hyn a gynhwysir yn y ffrwd 'metel, plastig a chartonau'.</p>
<p>Rydych yn crybwyll yr Atodiadau i'r Cod Ymarfer sy'n nodi beth sy'n dderbyniol neu beidio. Fy nealltwriaeth i yw bod yr Atodiadau yn dangos y deunyddiau derbyniol fel isafswm ac os yw casglwr gwastraff yn gallu casglu eitemau ychwanegol sy'n dod o fewn yr un ffrwd, mae'n iawn os yw'n gallu ailgylchu'r rheiny hefyd.</p> <p>A wyf wedi deall hyn yn gywir?</p>	<p>Mae hyn yn gywir. Fodd bynnag, byddai angen i chi wirio gyda'r safle derbyn neu'r prosesydd na fyddai'r deunydd ychwanegol yn achosi halogiad.</p>
<p>Casgliadau ar wahân</p>	
<p>A fydd gwastraff cyffredinol cymysg a biniau ailgylchu cymysg sych yn cael eu gwahardd o 6 Ebrill 2024?</p>	<p>Mae hynny'n gywir, ni fydd casglu gwastraff cyffredinol cymysg ac ailgylchu cymysg sych yn cael ei ganiatáu mwyach ar ôl 6 Ebrill 2024. Rhaid casglu'r holl ddeunyddiau penodedig ar wahân.</p>
<p>Er bod Atodiad 2 yn cynghori'n wahanol, a ellid rhoi rhai deunyddiau fel pecynnau creision a thybiau plastig du yn y ffrwd plastigau, gan y gallir tynnu'r eitemau hyn yn hawdd? Os anfonir yr eitemau hyn i Edf, ond bod y metelau, y plastigau a'r cartonau'n cael eu hanfon i'w hailgylchu, a yw'r casgliad yn dal i gydymffurfio?</p>	<p>Os nad yw'r eitemau hyn, pecynnau creision a thybiau plastig du, i'w hailgylchu dylent fynd i mewn gyda'r gwastraff gweddilliol. Os ydynt wedi mynd i'r ffrwd ailgylchadwy yna ni ellir eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu eu llosgi.</p>
<p>Os yw'r bin metelau, plastigion a chartonau'n cynnwys cwpanau coffi, ac nad ydym yn rheoli'r ffrwd honno o fewn ein proses gasglu, a fyddai hwnnw bellach yn cael ei ddsbarthu fel gwastraff halogedig?</p>	<p>Bydd angen i'r cynhyrchydd gwastraff ddod o hyd i gasglwr a fydd yn casglu cwpanau coffi (gyda leinin plastig), gan eu bod ar y rhestr deunydd penodedig o eitemau y mae'n rhaid eu hailgylchu.</p>

<p>A yw'r rheoliadau newydd yn cwmpasu'r WEEE sy'n cael ei ailgylchu gan fusnesau, megis offer TG, ffaniau, gwresogyddion, ac ati?</p>	<p>Nid yw hwn yn sWEEE sydd heb ei werthu ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y rheoliadau newydd.</p>
<p>Prif nod y rheoliadau newydd yw cynyddu cyfraddau ailgylchu gwastraff masnachol. Os gall casglwr/prosesydd gwastraff adennill ac ailgylchu deunydd pacio hyblyg/ffilm blastig – a elwir yn 'fagiau plastig a deunydd lapio' – a yw'n dderbyniol cynghori cwsmeriaid i gynnwys yr eitemau hyn yn y ffrwd cartonau?</p>	<p>Oes, gellir gosod ffilm blastig yn yr un cynhwysydd â'r metelau, plastigau a chartonau os yw'ch casglwr gwastraff yn gallu gwahanu'r ffrydiau.</p>
<p>Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i weithleoedd sy'n cynhyrchu symiau bach iawn o ddeunyddiau ailgylchadwy penodol na fyddai, cyn y newid i'r rheoliad, yn gwarantu cynhwysydd ar wahân?</p>	<p>Nid oes isafswm lefel wedi'i nodi yn y rheoliadau newydd, felly mae'n rhaid i unrhyw swm, ni waeth pa mor fach, gael ei gasglu ar wahân.</p> <p>Rhaid i'r cynhyrchydd gwastraff a'r casglwr gwastraff gael sgwrs i gytuno ar amserlen casglu amllder priodol ar gyfer y symiau bach hyn.</p>
<p>Os nad yw safle'n cynhyrchu gwastraff gwydr, a oes angen iddo gael cynhwysydd a chasgliad ar wahân ar gyfer gwydr o hyd?</p>	
<p>Os yw siop adwerthu yn cynhyrchu potel win neu botel saws wedi torri, a oes angen cynhwysydd gwydr a chasgliad ar wahân arni o hyd?</p>	
<p>Os yw busnes yn cynhyrchu dim ond un can, potel neu garton bob wythnos, a oes angen casgliad ar wahân arno o hyd? A oes isafswm lefel?</p>	
<p>Yn ôl y Cod Ymarfer, nid yw ffilm blastig – a elwir yn 'fagiau plastig a deunydd lapio' – wedi'i gynnwys yn y ffrwd metelau, plastigau a chartonau?</p>	<p>Cywir, oni bai bod eich casglwr gwastraff yn gallu ac yn hapus i gludo'r ffrwd ddeunyddiau honno ac os felly gellir ei roi yn yr un cynhwysydd â metelau, plastig a chartonau.</p>
<p>A ddylem fod yn ymestyn y newidiadau i'n contractau casglu ailgylchu i wastraff gardd neu ddeunyddiau eraill a ailgylchir yn eang?</p>	<p>Nid oes angen i chi wneud hyn i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd ond efallai y byddwch am wneud hynny am resymau eraill.</p>
<p>Pa gyllid / adnoddau sydd wedi'u dyrannu i CNC i gynnal arolygiadau ar gyfer gorfodi? Ydw i'n gywir wrth feddwl y bydd angen mwy o adnoddau ar gyfer hyn?</p>	<p>Mae gan CNC dîm o 12 Swyddog ledled Cymru a fydd yn monitro gweithrediad y rheoliadau newydd, yn cynnal arolygiadau ac yn cefnogi gweithleoedd i roi'r newidiadau ar waith.</p>
<p>Eiddo</p>	
<p>Beth fydd yn digwydd i wastraff a gynhyrchir gan fasnachwyr o eiddo domestig? A beth fydd yn digwydd o ran eiddo gwag gyda chwmnïau masnachol?</p>	<p>Yr unig eitemau y bydd angen eu gwahanu i'w hailgylchu fydd deunyddiau tebyg i'r cartref, fel pecynnu cardbord, ac nid deunyddiau adeiladu, fel brics, teils ac ati.</p> <p>Gweler adran 4.4 o'r Cod Ymarfer am y deunyddiau y mae'n rhaid eu casglu ar wahân</p>
<p>Os bydd adeiladwr yn mynd â'r gwastraff o waith adnewyddu cartref i safle gwastraff a ganiateir, a fyddai angen ei wahanu yn y gwaith a'i gludo? Os oes, ai'r disgwyl fyddai iddynt wahanu'r gwastraff a'i osod mewn gwahanol rannau o'u fan? Er enghraifft,</p>	

plastigion mewn un ardal, a gwydr mewn ardal arall?	
Hefyd tai gwag gyda chwmnïau masnachol?	Mae hwn yn wastraff a gesglir o eiddo domestig ac felly nid yw'n dod o dan y rheoliadau newydd.
Os mai eich cartref yw eich gweithle, a ydych wedi'ch eithrio?	Pan fydd unigolyn yn rhedeg busnes neu'n cyflawni rhyw fath o weithgaredd busnes o'i gartref (er enghraifft gwneud eitemau i'w gwerthu ar-lein, neu warchodwr plant), efallai y bydd angen ystyried a yw cyflawni'r busnes yn gwneud rhan o'r eiddo annomestig.
<p>Pan fydd contractwr (casglwr gwastraff) yn cael ei gyflogi gan awdurdod lleol i glirio gwastraff o eiddo gyda chelciau, sy'n fudr a gyda fermin, neu groniadau o wastraff heb hysbysiad, a oes rhaid i'r gwastraff gael ei wahanu o dan y rheoliadau newydd?</p> <p>Mae'r gwastraff cymysg yn aml yn cael ei bentyrru'n uchel neu wedi'i gynnwys mewn bagiau fel bagiau siopa, ac yn aml wedi'i halogi â mater ysgarthol, wrin neu hylif corff arall gan bobl neu bla. Ac yn aml mae'r gwastraff wedi diraddio ac wedi cymysgu'n sownd yn ei gilydd.</p> <p>A oes angen i gontractwyr agor pob bag a gwahanu pob eitem o wastraff cyn ei gludo?</p> <p>Byddai hyn yn cymryd llawer o amser, yn gostus, yn beryglus, ac yn arwain at ddeunyddiau ailgylchadwy o ansawdd gwael.</p>	<p>Os yw gwastraff a geir yn y sefyllfa benodol hon wedi'i halogi â sylweddau peryglus a / neu nad yw'n wag ac yn rhydd o halogiad sylweddol os yw wedi diraddio y tu hwnt i'r pwynt y gellir ei ailgylchu, nid oes angen ei gyflwyno ar wahân i'w ailgylchu.</p>
Sut mae'r rheoliadau newydd yn effeithio ar fynwentydd? A oes angen i gwsmeriaid wahanu eitemau fel torchau, a all gynnwys cymysgedd o blastigau, <i>oasis</i> (sbwng dal blodau) a blodau?	Nid yw'r deunyddiau hynny wedi'u pennu o dan ofynion gwahanu'r rheoliadau newydd; felly byddai'r deunyddiau hyn yn cael eu rheoli yn yr un ffordd ag y maent yn awr.
<p>Mae gennym gwsmeriaid/busnesau sy'n dod â gwastraff domestig i mewn sy'n cael ei gasglu o ymyl y ffordd i ddarparu dewis arall yn lle ailgylchu o'r cartref. Sut dylen ni reoli hyn?</p> <p>Os bydd gwastraff yn cael ei gludo i orsaf trosglwyddo gwastraff o eiddo domestig, yna'n cael ei anfon i orsaf drosglwyddo arall, a oes angen gwahanu'r gwastraff cyn ei symud? Dechreuodd y gwastraff hwn fel gwastraff domestig, ond yna daw'n fusnes-i-fusnes.</p>	<p>Os yw'r deunydd wedi'i gasglu o eiddo domestig, nid oes angen ei wahanu na chydymffurfio â'r rheoliadau newydd.</p>

<p>A yw'r rheoliadau newydd yn berthnasol i unrhyw sgipiau/biniau domestig a ddygir i mewn gan drydydd partïon â Thrwydded Cludwyr Gwastraff?</p>	
<p>Os yw asiantaeth gasglu drwyddedig yn casglu o gyfeiriad domestig (gwastraff domestig), a yw'r gofynion gwahanu yn berthnasol i'r cartref a'r casglwr yn yr un modd â phan fyddant yn casglu o eiddo busnes? Rydym yn gweld cwmnïau bach yn dod i'r amlwg yn casglu bagiau o gartrefi nad ydynt yn didoli ac yn ailgylchu, ac yn hytrach yn cyflwyno eu holl wastraff mewn bagiau du.</p>	
<p>Sut ydym ni'n rheoli'r gwastraff sy'n dod i mewn i ni gan gwmnïau rheoli gwastraff eraill, sy'n ei gasglu'n swmp ac yn cael rhywfaint o drefn cyn dod ag ef atom ni, fel y gwyddom y bydd eu cwsmeriaid yn fasnachol ac yn ddomestig?</p>	<p>Os ydynt wedi casglu o weithle, dylai'r eitemau gael eu gwahanu eisoes a'u cadw ar wahân. Mae'r rheoliadau newydd yn berthnasol i'r pwynt cyflwyno o'r gweithle i'r casglwr gwastraff, ac nid ymhellach ar hyd y gadwyn gyflenwi.</p>
<p>Proses</p>	
<p>Pa ystyriaethau sydd wedi'u rhoi ar gyfer deunyddiau busnes sy'n cael eu hadennill a'u hailgylchu trwy gyfleuster ailgylchu deunyddiau masnachol a diwydiannol (MRF C&I)? A yw triniaeth MRF o'r fath yn bodloni'r rheoliadau newydd?</p>	<p>Na, ni fydd casgliadau ailgylchu cymysg sych yn cael eu caniatáu mwyach o dan y rheoliadau newydd. Mae hyn yn cynnwys anfon deunyddiau ailgylchadwy i MRF. Bydd angen i chi drefnu bod y ffrydiau gwastraff penodedig yn cael eu casglu ar wahân o safle eich cwmni, gan gynnwys gwastraff bwyd os ydych yn cynhyrchu mwy na 5kg mewn cyfnod olynol o 7 diwrnod. Unwaith y byddant wedi'u casglu rhaid i'r deunyddiau aros ar wahân i'w gilydd. Gweler adran 3 o'r Cod Ymarfer.</p>
<p>Mae gwastraff ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ein cwmni yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ac yna ei drin ymlaen llaw, ei adfer wedi'i ailgylchu trwy gyfleuster ailgylchu deunyddiau masnachol a diwydiannol (MRF C&I). Mae'n adennill mwy na 18 o wahanol fathau o wastraff yn ychwanegol at yr ailgylchu cymysg sych arferol (DMR) yn ein biniau. A yw hyn yn bodloni'r rheoliadau newydd ac, os nad yw, pam?</p>	
<p>A yw'r gwaharddiad ar losgi hefyd yn cynnwys cyfleusterau troi gwastraff yn ynni?</p>	<p>Ydi.</p>
<p>Casgliadau ar wahân</p>	
<p>Os nad yw bagiau goroesi yn cael eu hargymell yn y Cod Ymarfer, beth am gasglu ffrydiau ar wahân mewn bagiau ar wahân mewn cerbyd cawell neu sgip?</p>	<p>Mae Adran 8.2-8.4 o'r Cod yn darparu canllawiau perthnasol ar hyn.</p>
<p>A ellir defnyddio bagiau goroesi os ydynt yn cadw ar wahân? Yn sicr effeithiolrwydd yw'r peth pwysig?</p>	<p>Mae'r Cod Ymarfer yn cynghori yn erbyn defnyddio bagiau goroesi a gosod eitemau o wahanol ffrydiau deunydd yn yr un bag, fel cymysgu papur â metelau, plastigau a</p>

	chartonau. Mae Adran 8.2-8.4 o'r Cod yn darparu canllawiau pellach ar hyn.
Beth am gwsmeriaid nad oes ganddynt le i gadw cynwysyddion ychwanegol ar gyfer ffrydiau gwastraff ar wahân, ond mae angen iddynt fodloni'r rheoliadau newydd?	Mae yna amrywiaeth o gynwysyddion ar y farchnad sy'n cymryd ychydig bach iawn o le. Rhaid i'r deunyddiau gael eu cyflwyno ar wahân i'r casglwr gwastraff
A ellir defnyddio bagiau swmp i'w casglu ar wahân?	Os ydynt yn ddigonol i sicrhau bod gwahaniad yn cael ei gynnal, mae hynny'n iawn
WEEE bach	
Beth yw'r "WEEE bach heb ei werthu"?	Mae'r gofynion gwahanu yn cynnwys sWEEE heb eu gwerthu yn unig, nid eitemau trydanol wedi torri megis tostiwr. Mae'r diffiniad o heb ei werthu i'w weld yng ngeirfa'r Cod.
Dim ond WEEE sydd heb ei werthu y mae'r rheoliadau newydd yn ei grybwyll. Mae amodau maint y gellir eu casglu hefyd. Beth yw'r cynllun ar gyfer nwyddau electronig a thrydanol gwastraff sydd yn gweithio /wedi'u defnyddio fel rhan o gael eu defnyddio mewn gweithgynhyrchu neu fusnes?	
A yw WEEE bach heb ei werthu yn golygu stoc, ac nid dim ond hen dostiwr o ystafell athrawon?	

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at WalesRecycles@wrap.org.uk neu CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk.